| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Craffu Corfforaethol** |
| **DYDDIAD** | **26 Mawrth, 2015** |
| **PWNC** | **RHEOLI GALW** |
| **PWRPAS** | **Ymateb i gais am adroddiad cynnydd gan y Pwyllgor Craffu** |
| **AWDUR** | **Y Cynghorydd Dyfed Edwards, Arweinydd y Cygnor**<br>**Dilwyn Williams, Prif Weithredwr** |

**CEFNDIR**

1. Mae Cynllun Strategol Y Cyngor ar gyfer 2014/15 yn cynnwys blaenoriaeth penodol, sef, "Lleihau'r Galw ar Wasanaethau Drwy Atal ac Ymyrraeth Gynnar". Nododd y Cynllun bod hyn wedi ei adnabod gan na all y Cyngor ddygymod gyda'r galw cynyddol ar wasanaethau oni bai ein bod yn gwneud toriadau i wasanaethau. Roedd yn amlwg fod angen adnabod dulliau newydd ac arloesol o ddarparu gwasanaethau, os am geisio lleihau nifer o wasanaethau sydd yn cael eu torri. Nodwyd y byddai hyn yn cynyddu buddsoddiad a ffocws y Cyngor ar waith ataliol ac ymyrraeth gynnar mewn meysydd allweddol.

2. O ran ymrwymiadau penodol, roedd y cynllun yn nodi'r ddau bwynt canlynol ar gyfer gwireddu yn 2014/15:-

   - Bydd eglurder yn ei le ynghylch cyfeiriad ac uchelgais y prosiectau thematig rheoli'r galw (sef; Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd, Pobl Hŷn, Iechyd, Gwasanaethau Cyffredinol a Throsglwyddo Cyfrifoldeb), gyda phrosiectau galluogi mewn lle i gefnogi llwyddiant y prosiectau hynny.
   - Bydd trigolion Gwynedd yn cael budd ariannol/anariannol o gynlluniau y prosiect Cyngor Ni.

**DIWEDDARIAD**

3. O ran y prosiect Cyngor Ni, mae'r pwyllgor eisoes wedi derbyn adroddiadau ar hynny ac, yn benodol, wedi derbyn adroddiad ar y prosiect Caffael Ynni yn Rhatach (Cyd-Cymru) yng nghyfarfod diwethaf y pwyllgor. Yn ogystal, cafodd cymunedau eu paratoi i wynebu'r her eira trwy'r cynllun Eryrod Eira.

4. O ran y gwaith mwy thematig, adnabuwyd rhai prosiectau mawr penodol yn y meysydd a nodwyd uchod a bu gwaith y tu cefn i'r llenni gydag arweinyddion prosiect i'w cefnogi yn y gwaith o geisio lleihau'r galw yn y ffordd y maent yn cynllunio eu gwasanaethau i'r dyfodol.

5. Er engraifft, cafodd hyn sylw penodol yn y maes Gwasanaeth Oedolion trwy weithio ar y Prosiect Dechrau i Ddiwedd Gwasanaeth Oedolion sydd yn rhoi cyfeiriad i holl waith y gwasanaeth. Gwelwyd cynllun yn cael ei greu hefyd i leihau dibyniaeth ym maes y Gwasanaeth Plant. Yn ogystal, mae gwaith rheoli galw ymhlyg yn y gwaith

sydd ar fin dod i'w ben ar yr adolygiad o sut y mae'r Cyngor yn ymdrîn ag anghenion addysgol arbennig yn y dyfodol.

6. Un elfen allweddol o reoli galw yw symud i fwy o wasanaethau hunan-arlwyo, sydd yn hwylusach i ddinasyddion ac yn arbed arian i'r Cyngor fel darparwr. Cwblhawyd gwaith defnyddiol iawn yn cefnogi'r achos am ddatblygu mwy o wasanaethau fel hyn a disgwylir gweld ffrwyth hynny mewn mwy o ddewis a llai o gostau i'r Cyngor dros y blynyddoedd nesaf. Bydd achos busnes ar hwn yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn y deufis nesaf.

7. Fel esiampl olaf, roedd rheoli galw yn rhan allweddol o'r newid a gafwyd i drefniadau casglu gwastraff lle mae buddsoddiad gan y Cyngor o ran ymgysylltu a chyd-drafod wedi arwain at sefyllfa lle mae trigolion Dwyfor, yr ardal cyntaf ar gyfer y trefniadau newydd, wedi dangos bod ymddygiad yn medru newid yn llwyddiannus trwy gydweithio a chyd-drafod.

8. Mae'r engreifftiau uchod yn amlygu bod yr egwyddor o reoli galw yn allweddol wrth i'r Cyngor fynd i'r afael â'r her ariannol y mae'n ei wynebu dros y blynyddoedd nesaf. Fodd bynnag, mae hefyd wedi dod yn amlwg bod angen prif-ffrydio'r math hwn o ymagwedd trwy holl wasanaethau'r Cyngor er mwyn ceisio sicrhau bod ein gwasanaethau yn gynaliadwy. Mae gwaith Ffordd Gwynedd yn annog staff ar bob lefel i feddwl am welliannau ac i herio sut y mae pethau wedi bod yn cael eu gwneud er mwyn cynnal gwasanaethau er lles trigolion ac arbed costau.

**CWESTIYNAU**

9. I ymateb yn benodol i gwestiynau'r Pwyllgor Craffu:-

   *I. A oes gan y Cyngor y sgiliau a'r capasiti angenrheidiol i sicrhau llwyddiant Rheoli'r Galw?*

   Mae'r Cyngor wedi bod yn datblygu ei sgiliau yn y meysydd rheoli galw, ymgysylltu a chyd-gynhyrchu yn y blynyddoedd diwethaf ac mae gennym bocedi o arbenigedd o fewn y Cyngor. Yr her i'r Cyngor fydd ymestyn y sgiliau hynny ar draws y Cyngor ond tasg tymor hwy fydd hyn. Yn y blynyddoedd nesaf felly, bydd angen blaenoriaethu sylw a chefnogaeth i brosiectau newid mawr

   *II. Pa ymgysylltu ffurfiol/anffurfiol sydd wedi bod gyda phartneriaid a thrigolion Gwynedd ynglŷn a rheoli'r galw? Beth oedd canlyniadau hynny?*

   Mae'r drafodaeth gyda'r cyhoedd ac efo partneriaid wedi bod yn digwydd trwy "Her Gwynedd" lle rydym wedi bod yn ceisio cynyddu ymwybyddiaeth am yr her y mae'r Cyngor yn ei wynebu a gwahodd syniadau i leihau'r galw yn y lle cyntaf a wedyn canfod ffyrdd creadigol a gwahanol am gyflenwi'r galw gweddilliol. Hyd yma, mae

llawer o awydd wedi ei ddangos gan bartneriaid, yn cynnwys mentrau cymdeithasol a chynghorau cymuned ond mae'n ddyddiau cynnar o ran dangos gwahaniaeth eto. Yn benodol, mae Bwrdd Gwasanaethau Lleol Mon a Gwynedd yn edrych rai meysydd allweddol lle bydd rheoli galw yn allweddol dros y blynyddoedd nesaf, yn cynnwys Pobl Hyn a theuluoedd anodd.

*III. Sut mae'r Cyngor yn llwyddo i  daro cyd-bwysedd rhwng rheoli'r galw, ac ymateb i wir anghenion trigolion Gwynedd?*

Mae agenda Ffordd Gwynedd yn ein gorfodi i roi Pobl Gwyned dyn ganolog i bob dim rydym yn ei wneud. Egwyddor rheoli galw yw mynd at graidd y gwir alw yn hytrach nag ymateb i ddisgwyliadau allai fod yn afresymol yng ngoleuni'r crebachu sydd ar ein hadnoddau. Heb fod yn rheoli galw a chwilio am ffyrdd amgenach o ddarparu gwasanaethau, mae bron yn sicr na fyddwn yn medru cyfarfod gwir anghenion pobl Gwynedd

*IV. Pa mor sicr yw'r Cyngor o wireddu arbedion ariannol yn sgil Rheoli'r Galw? A yw'r arbedion rheiny yn debygol o fod ar draul trigolion mwyaf bregus cymdeithas?*

Bydd Rheoli Galw yn ein holl waith yn debygol o arwain naill ai at wireddu arbedion neu o leiaf at leihau costau wrth i alw gynyddu. Bydd yn rhaid pwyso a mesur cynigion yng nghyd-destun y prosiectau unigol. Prawf o Gyngor aeddfed yw gwrachod y trigolion mwyaf bregus mewn cymdeithas ond mae'n bwysig nodi nad yw hynny'n golygu peidio â newid hyd yn oed yn y sefyllfaoedd hynny

*V. A oes addewidion pendant ym maes Rheoli'r Galw i'w cynnwys yng Nghynllun Strategol y Cyngor ar gyfer 2015/16 ymlaen?*

Na ac yn sicr ni fydd "prosiect" corfforaethol yn gyrru'r peth; mae'n allweddol bod holl egwyddorion Ffordd Gwynedd yn cael eu prif-ffrydio trwy holl waith y Cyngor a nid yn destun prosiect arbenigol sy'n eistedd mewn un lle.  Y disgwyl yw y bydd egwyddor rheoli galw ymhlyg yn unrhyw brosiect Cynllun Strategol ac unrhyw gynllun arbedion a fydd yn cael ei wireddu yn 2015/16 a thu hwnt

Fodd bynnag fe fydd yna drefniadau corfforaethol mewn lle i sicrhau ein bod yn uchafu pob cyfle sydd ar gael er mwyn lleihau'r angen am doriadau ac os cyfyd sefyllfa lle 'rydym yn adnabod cyfle nad yw gwasanaethau wedi manteisio arno byddwn yn tynnu sylw gwasanaeth ato.